



Hawdd i'w Ddeall

# Symud o addysg i gyflogaeth

Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei hysgrifennu gan **Dr Hefin David**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Symud o Gyflogaeth. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru'

Gorffennaf 2023

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 23**.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** [hefin.david@senedd.wales](mailto:hefin.david@senedd.wales)

**Ffôn:** 0300 200 7154



Gwnaeth [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, [cliciwch yma](#).

**[Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247](#)**

# Contents

<b>Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma .....</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>4</b>
<b>Beth ddylai ddigwydd nesaf.....</b>	<b>6</b>
1. Symud o addysg i swydd .....	9
2. Gweithio gyda'n gilydd i roi mwy o ddewisiadau i ddysgwyr .....	10
3. Cefnogi'r dysgwr i mewn i waith.....	13
4. Prentisiaethau Lefel Uwch .....	17
5. Cyfleoedd i bawb .....	20
<b>Geiriau anodd .....</b>	<b>23</b>

# Cyflwyniad



Dyma adroddiad am bobl sy'n cefnogi dysgwyr i gyflogaeth yng Nghymru.



Rydw i wedi siarad gyda phobl sy'n gweithio ar bob lefel addysg i fyfyrwyr dros 11 oed.



Rydw i wedi siarad â chyflogwyr a sefydliadau eraill.



Rydw i'n cyfweld â gwahanol bobl i gael gwybod beth maen nhw'n feddwl am sut rydyn ni'n gallu gwneud gwelliannau.



Mae sefydliad o'r enw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)** wedi bod yn cefnogi dysgwyr mewn addysg yng Nghymru.



Mae sefydliad newydd o'r enw **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)** yn cymryd lle **CCAUC**.



Y gobaith ydy y bydd y sefydliad newydd yn gallu cefnogi dysgwyr yn well.



Fe fyddaf yn siarad am **brentisiaethau gradd** yn yr adroddiad yma.

**Prentisiaeth gradd** ydy lle mae dysgwr yn gallu gweithio tuag at ei radd wrth weithio a dysgu sgiliau swydd.



Ac fe fyddaf yn siarad am y gwaith sy'n digwydd i gefnogi dysgwyr gydag **anghenion dysgu ychwanegol**.

# Beth ddylai ddigwydd nesaf

Dyma restr o rai o'r prif bethau rydw i'n credu sydd angen digwydd nesaf:



- Fe ddylai dysgwyr gael amrywiaeth o gyfleoedd i brofi'r gweithle.



- Fe ddylai dysgwyr gael digon o gyfleoedd i wybod beth ydy eu dewisiadau ar ôl gadael yr ysgol. Mae angen iddyn nhw allu gwneud dewisiadau am eu sgiliau a'u nodau.



- Fe ddylai'r sefydliad newydd o'r enw **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)** weithio mwy gydag ysgolion a cholegau.



- Fe ddylai pob dysgwr rhwng 14 a 18 oed gael y cyfle i gael profiad gwaith sy'n iawn iddyn nhw.



- Fe ddylai profiad gwaith fod wedi ei seilio ar ddiddordebau a sgiliau'r dysgwr. Mae hefyd yn bwysig meddwl am ddysgu yn y dyfodol a swyddi lleol.



- Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod digon o ddewis ar gyfer graddau a **phrentisiaethau gradd**.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych ar **hyfforddiant swyddi** sydd yn cael ei roi i ddysgwyr gydag **anghenion dysgu ychwanegol**. Fe ddylid rhoi cynllun hyfforddiant swyddi ar waith i gefnogi dysgwyr gydag **anghenion dysgu ychwanegol** i ddod o hyd i swyddi gyda thâl.



Mae **hyfforddiant swyddi** yn meddwl cefnogi rhywun i ddod o hyd i swydd ac aros ynnddi.

Mae **hyfforddwyr swyddi** yn dod i'ch adnabod chi, beth rydych chi'n dda yn ei wneud a pha gefnogaeth rydych chi ei angen. Maen nhw yn gallu eich helpu i ddod o hyd i hyfforddiant, dod o hyd i swyddi a gwneud cais amdanyn nhw ac maen nhw hefyd yn gallu rhoi cefnogaeth yn y gweithle. Maen nhw yn gweithio gyda chyflogwyr i wneud yn siŵr eich bod yn cael yr help rydych chi ei angen mewn gwaith.



- Mae angen mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddysgu Cymraeg.



- Fe ddylid gwneud mwy i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr fel:



- Pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (mae'r grŵp yma yn cael ei alw yn **NEET**)



- Dysgwyr â **nodweddion gwarchodedig**.

**Nodweddion gwarchodedig** - mae rhai pobl yn cael eu trin yn annheg am nifer o resymau.

Er enghraifft, hil, rhyw, anabledd a phethau eraill.

Mae deddf o'r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn galw'r rhain yn **nodweddion gwarchodedig** ac yn dweud y dylai pobl gael eu diogelu a'u trin yn deg.



# 1. Symud o addysg i swydd



Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael cymorth i mewn i waith a bod ganddyn nhw y sgiliau cywir i wneud hynny.



Mae deddfau wedi newid yng Nghymru i helpu i wneud yn siŵr bod y pethau yma yn digwydd.



Mae angen i bob sefydliad sy'n darparu addysg weithio gyda'i gilydd i wneud i hyn ddigwydd.



Fe fydd y gwaith yma yn dda i ddysgwyr ond hefyd i gyflogwyr yng Nghymru.

## 2. Gweithio gyda'n gilydd i roi mwy o ddewisiadau i ddysgwyr



Mae angen digon o gyfleoedd i ddysgwyr gael **cymwysterau galwedigaethol**.

**Cymwysterau galwedigaethol** - cymwysterau sy'n hyfforddi pobl i wneud swydd neu fasnach benodol ydy'r rhain.



Rydyn ni'n credu fod angen gwella pethau fel bod dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ennill sgiliau a phrofiad a fydd yn eu helpu i wneud y dewisiadau cywir am eu gyrfaeodd.



Mae rhai ysgolion wedi dweud bod gofyn i ddysgwyr ganolbwyntio ar eu TGAU a'u Lefel A yn fwy na **chymwysterau galwedigaethol**.



Ond mae hyn yn newid, ac mae mwy o ysgolion yn cynnig dysgu **galwedigaethol**.

Mae **Gyrfaedd Cymru** yn gweithio gydag ysgolion uwchradd i gefnogi plant gyda dewisiadau gyrfa.



Ond yr ysgolion sy'n siarad gyda chyflogwyr i gael profiadau i ddysgwyr.



Mae hyn yn llawer o waith i ysgolion ac yn costio llawer o arian.



Mae'n bwysig iawn bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael profiad gwaith da.



Mae angen i ddysgwyr wybod beth ydy eu holl ddewisiadau ar ôl 16 oed.



Mae angen i ddarparwyr addysg weithio'n well gyda'i gilydd i wneud i hyn ddigwydd.



Mae angen i bobl ifanc 11 i 14 oed wybod mwy am eu dewisiadau ar gyfer cyflogaeth a dysgu hefyd.



Mae'r sefydliad newydd o'r enw **Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)** yn gallu helpu ysgolion a cholegau i weithio'n well wrth gefnogi dysgwyr gyda'u dewisiadau ar gyfer dysgu a gwaith.

### 3. Cefnogi'r dysgwr i mewn i waith



Mae oedran 14 i 16 oed yn amser pwysig iawn i ddysgwyr gymryd rhan mewn profiad gwaith.



Mae ysgolion wedi dweud ei bod yn bwysig iawn i ddysgwyr ddod o hyd i'r profiad gwaith cywir iddyn nhw.



Ond mae hyn yn anodd nawr nad ydy **Gyrfaedd Cymru** yn gallu cefnogi dysgwyr gymaint ag o'r blaen.



Er enghraifft, mae angen i ysgol wneud yr holl archwiliadau iechyd a diogelwch i wneud yn siŵr bod man gwaith yn ddiogel i'r dysgwr.



Dydy llawer o ysgolion ddim wedi gallu cynnig cyfle i ddysgwyr wneud profiad gwaith oherwydd nad oes ganddyn nhw ddigon o amser nac arian i'w drefnu.



Mae'n haws i golegau addysg bellach gefnogi dysgwyr i gael profiad gwaith. Mae hyn oherwydd eu bod yn aml yn cyflogi staff sy'n gallu gwneud hyn.



Mae grwpiau ar draws Cymru o'r enw **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol**.



Mae'r rhain yn cynnwys pobl fel busnesau lleol a darparwyr sgiliau i helpu i weld pa sgiliau sydd eu hangen mewn ardal.



Mae rhai wedi cael eu cyfweld a dweud bod modd gwneud mwy i edrych ar rolau ysgolion, colegau a Gyrfaoedd Cymru yn eu gwaith.



Mae angen i sefydliadau addysg a Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael y cyfleoedd profiad gwaith cywir iddyn nhw. Fe ddylid eu trin fel unigolion.



Mae'n bwysig i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac ysgolion neu golegau feddwl am brofiad gwaith mewn meysydd fel:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Diwydiant bwyd
- Tai
- Siopa
- A meysydd eraill



Mae'r mathau yma o swyddi yn bwysig mewn cymdeithas, ac rydyn ni yn dibynnu arnydd nhw bob dydd.



Mae'n bwysig iawn bod y cyngor a'r cymorth gyrfaedd cywir ar gael yng Nghymru ar gyfer dysgwyr.



Mae newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i Gyrfaedd Cymru yn golygu nad ydy hynny'n wir nawr.



Mae angen i wasanaethau fel y rhain gael yr arian cywir i gefnogi dysgwyr.



## 4. Prentisiaethau Lefel Uwch



Mae oedran 11 i 14 oed yn amser pwysig i ddysgwyr ddechrau meddwl am eu dyfodol.



Mae angen cyfleoedd i ddysgwyr wneud prentisiaethau **lefel uwch a lefel gradd**.



Mae angen **prentisiaethau lefel gradd** ar gyfer y mathau yma o swyddi:

- Technoleg ddigidol
- Peirianeg
- Gweithgynhyrchu uwch



Does dim digon o gyfleoedd na chyllid ar hyn o bryd, ac mae arbenigwr wedi dweud wrthyn ni fod angen mwy o bynciau mewn rhai meysydd.



Enghraifft o ble mae hyn yn digwydd ydy **Trafnidiaeth Cymru**. Maen nhw yn gweithio gyda **Choleg y Cymoedd** i redeg **prentisiaethau gradd** a chyrsiau eraill.



Does dim digon o arian ar gyfer **prentisiaethau** ar hyn o bryd.



Ond rydyn ni yn credu bod modd gwella'r sefyllfa pe bai'r cyflogwyr cywir yn cael eu darganfod, lle mae angen i staff wneud rhai swyddi.



Mae hefyd yn bwysig iawn i brifysgolion a cholegau addysg bellach gydweithio mwy.

University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru

Enghraifft o ble mae hyn yn digwydd yn barod ydy Prifysgol De Cymru a nifer o golegau lleol.



Rydyn ni hefyd wedi cael gwybod ei bod yn bwysig i Brifysgolion a cholegau weithio gyda chyflogwyr fel bod **prentisiaethau gradd** yn cael eu cynllunio yn y ffyrdd gorau.



Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych ar y gwahanol ffyrdd y mae **prentisiaethau gradd** yn cael eu talu amdany'n nhw.



Mae barn wahanol am faint y dylai'r gweithiwr, y cyflogwr a Llywodraeth Cymru ei dalu.

## 5. Cyfleoedd i bawb

### Anghenion Dysgu Ychwanegol



Mae symud o addysg i gymorth cymdeithasol i oedolion yn gallu bod yn anodd i ddysgwyr gydag **anghenion dysgu ychwanegol**. Mae hefyd yn gallu bod yn anodd dod o hyd i'r swydd iawn.



Mae'r **prosiect Engage to Change** wedi dweud wrthyn ni am bwysigrwydd **hyfforddiant swyddi** i helpu dysgwyr gydag **anghenion dysgu ychwanegol** i gael gwaith cyflogedig.



Rydyn ni yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru edrych i mewn i **hyfforddiant swyddi** ar gyfer pobl ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn fwy.



Hefyd, fe ddylid cael cynlluniau ar gyfer gwasanaeth **hyfforddiant swyddi** cenedlaethol.

## Yr iaith Gymraeg



Rhaid cael cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu Cymraeg mewn addysg gynnar a thrwy gydol eu dysgu cyfan.



Mae gallu siarad Cymraeg yn bwysig ar gyfer cyflogaeth.



Mae hefyd yn bwysig helpu dysgwyr i ddeall pam y gall siarad a deall y Gymraeg eu helpu.

## Nodweddion gwarchoddedig



Mae'n rhaid bod digon o gyfleoedd i ddysgu a phrofiadau gwaith i bobl â **nodweddion gwarchoddedig**.



Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc nad ydyn nhw mewn cyflogaeth na hyfforddiant addysg (mae hyn hefyd yn cael ei alw yn **NEET**).



Mae'r bobl ifanc yma hefyd angen cyngor a chefnogaeth am ddysgu.



Fe ddylai fod cefnogaeth hefyd i'r dysgwyr mwyaf talentog ddeall dewisiadau am **gymwysterau galwedigaethol**.

# Geiriau anodd

## Cymwysterau galwedigaethol

Mae'r rhain yn gymwysterau sy'n hyfforddi pobl i wneud swydd neu fasnach benodol.

## Hyfforddiant swydd

Mae hyfforddiant swyddi yn meddwl cefnogi rhywun i ddod o hyd i swydd ac aros ynddi.

Mae hyfforddwyr gwaith yn dod i'ch adnabod chi, beth rydych chi'n dda yn ei wneud a pha gefnogaeth rydych chi ei angen. Maen nhw yn gallu eich helpu i ddod o hyd i hyfforddiant, dod o hyd i swyddi a gwneud cais amdany'n nhw ac maen nhw hefyd yn gallu rhoi cefnogaeth yn y gweithle. Maen nhw yn gweithio gyda chyflogwyr i wneud yn siŵr eich bod yn cael y cymorth rydych chi ei angen mewn gwaith.

## Nodweddion gwarchoddedig

Nodweddion gwarchoddedig - mae rhai pobl yn cael eu trin yn annheg am nifer o resymau.

Er enghraifft, hil, rhyw, anabledd a phethau eraill.

Mae deddf o'r enw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn galw'r rhain yn nodweddion gwarchoddedig ac yn dweud y dylai pobl gael eu diogelu a'u trin yn deg.

## Prentisiaeth gradd

Prentisiaeth gradd ydy lle mae dysgwr yn gallu ennill gradd tra'n bod mewn swydd.